**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 18fed Gorffennaf 2018

**Aelod Arweiniol:** Y Cynghorydd Brian Jones

**Awdur yr Adroddiad:** Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai

**Teitl:** Ymateb i'r ymgynghoriad - Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad am y gwaith o lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gofyn am fewnbwn y Pwyllgor Cynllunio i ymateb drafft y Cyngor i ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol Llywodraeth Cymru ar y Materion a'r Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd. Mae crynodeb o gynnwys y ddogfen a'r amserlen gyflenwi ynghlwm yn Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn am fewnbwn y Pwyllgor Cynllunio i'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad sydd ynghlwm yn Atodiad 2. Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gerbron Cyfarfod Briffio'r Cabinet ar 9 Gorffennaf ac mae'r sylwadau wedi'u cynnwys yn yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad. Bydd unrhyw sylwadau ychwanegol gan y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu cynnwys yn yr ymateb drafft, cyn gofyn am gymeradwyaeth i ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus uchod fel penderfyniad wedi'i ddirprwyo i Aelod Arweiniol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cytuno ar yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd ynghlwm yn Atodiad 2.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith statudol ar gyfer Gweinidogion Cymru i baratoi a diweddaru cynllun defnydd tir cenedlaethol a elwir yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDC). Bydd y FfDC yn nodi lle dylid lleoli datblygiadau o bwys cenedlaethol a seilwaith a sut gall y system gynllunio – yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol – eu cyflenwi. Pwrpas y ddogfen yw cefnogi'r gwaith o gyflenwi strategaeth Llywodraeth Cymru

'*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*', (2017) trwy ddatblygu cyfeiriad gofodol tymor hir ar gyfer polisi, gweithredu a buddsoddi gan y Llywodraeth.

4.2 Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi meysydd twf allweddol, y math o seilwaith sydd ei angen a'i leoliad, drwy gydlynu'r gwaith o gyflenwi tai, cyflogaeth a seilwaith a chysylltedd, a thrwy gyfarwyddo partneriaid allweddol i helpu i gyflenwi'r weledigaeth ofodol genedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf.

4.3 Bydd y FfDC yn eistedd ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Bydd PCC yn parhau i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir, fodd bynnag, bydd y FfDC yn darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol. Bydd yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol (CDSau) a'r Cynlluniau Datblygu Lleol ar lefel leol (CDLlau) gydymffurfio â gofynion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a gyda'i gilydd bydd tair haen y cynllun gofodol yn gweithredu fel 'cynllun datblygu' ar gyfer yr awdurdod lleol.

4.4 Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, mae'r Ddeddf Cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gasglu tystiolaeth, datblygu'r weledigaeth, amcanion ac opsiynau fel rhan o Gam 4 y gwaith o baratoi FfDC. Erbyn hyn mae'r FfDC wedi cyrraedd Cam 5 – ymgynghori â'r cyhoedd ar Faterion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 23 Gorffennaf 2018. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi gweledigaeth ac amcanion y FfDC, yn ystyried pedwar opsiwn ar gyfer dulliau amgen o'u cyflenwi ac yn nodi'r opsiwn a ffefrir (sef cyfuniad o'r pedwar opsiwn).

4.5 Mae'r opsiwn a ffefrir yn darparu fframwaith ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu, gan nodi'r materion gofodol a gaiff eu cynnwys yn y FfDC a'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisïau'r FfDC. Nid yw'n nodi prosiectau, safleoedd na lefelau/lleoliadau twf penodol ar y cam hwn.

4.6 Mae'r ddogfen ymgynghorol hefyd yn cynnwys Atodiad A – Dogfen materion, Atodiad B – Dogfen opsiynau, Atodiad C – Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cychwynnol ac Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig Dros Dro.

4.7 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn bydd Llywodraeth Cymru yn llunio fersiwn ddrafft ffurfiol o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac yn ei rhyddhau at ddibenion ymgynghori. Bydd y ddogfen hon yn nodi safleoedd a phrosiectau o arwyddocâd cenedlaethol, yn darparu cyfeiriad ar gyfer y tri rhanbarth ar draws Cymru, gan gynnwys fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol, a bydd yn nodi meysydd twf. Yr amserlen sydd wedi'i hamcangyfrif ar gyfer yr ymgynghoriad yw rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019. Bydd cyfle i'r Aelodau archwilio fersiwn ddrafft y FfDC a rhoi eu sylwadau yn ystod y cyfnod hwn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw ymateb i'r ymgynghoriad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol. Bydd y sylwadau a dderbynnir yn sail i lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn darparu fframwaith defnydd tir ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud ag ymateb i ymgynghoriad ac ni ragwelir y bydd yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

## 7. Beth yw prif ganlyniadau'r Asesiad Effaith Llesiant?

7.1 Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Llesiant gan fod yr adroddiad yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Nid yw'n llunio polisïau'r Cyngor, gweithdrefnau gweithio, na meini prawf gwneud penderfyniadau ar gyfer adrannau eraill.

## 8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

8.1 Trafodwyd yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad yng nghyfarfod Briffio'r Cabinet ar 9 Gorffennaf. Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Cynllunio, y bwriad yw gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno'r ymateb terfynol fel Penderfyniad wedi'i ddirprwyo i Aelod Arweiniol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni ragwelir y bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol ond os byddant yn codi bydd yn rhaid eu cynnwys o fewn cyllidebau refeniw presennol y gwasanaethau.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ystyrir nad oes unrhyw risgiau yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud Penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015